



Canllawiau i apeliadau

2017-2018

Fersiwn terfynol 1

Mae'r ddogfen hon yn cynnig arweiniad a chynghor i ganolfannau sy'n cynnig cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol CBAC. Mae'n cynnwys gwybodaeth am apeliadau ac adolygiadau yn erbyn penderfyniadau CBAC o ran ymholiadau am ganlyniadau, camymddwyn, ystyriaethau arbennig, trefniadau mynediad a phenderfyniadau gweinyddol eraill.

1. Rhagarweiniad

Pwrpas y canllaw hwn yw darparu arweiniad a chefnogaeth i ganolfannau sy'n cynnig cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol CBAC. Mae'n cynnwys gwybodaeth am apeliadau ac adolygiadau yn erbyn penderfyniadau CBAC mewn perthynas â'r canlynol:

- Ymholiadau am ganlyniadau (gwiriadau clerigol, adolygiadau o farcio neu safoni)
- Camymddwyn gan ganolfan, staff y ganolfan ac ymgeiswyr
- Trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig
- Penderfyniadau gweinyddol eraill

Dylid darllen y canllaw ar y cyd â dogfen gyfredol y Pwyllgor Cymwysterau (CGC) '[Canllaw ar brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu' ddaeth i rym ar 17 Medi 2017](#). Mae hwn ar gael ar wefan y CGC.

Mae adran 2 yn darparu gwybodaeth allweddol am bob math o apeliadau tra bo adrannau 3-6 yn darparu arweiniad mwy manwl am apeliadau yn erbyn ymholiadau am ganlyniadau, camymddwyn, trefniadau mynediad ac ystyriaeth arbennig, a phenderfyniadau gweinyddol eraill.

Gellir cael canllawiau pellach ar weithdrefnau apeliadau trwy gysylltu â Thîm Cydymffurfio CBAC ar appeals@wjec.co.uk neu dros y ffôn ar 02920 265474.

Mae'r rheoleiddwyr wedi cyhoeddi rheoliadau newydd o ran Gwasanaethau ac Apeliadau ar ôl y Canlyniadau. Mae gwybodaeth yn ein canllaw Cwestiynau Cyffredin, [yma](#).

Nid yw apeliadau'n cynnwys:

- Cwynion cyn canlyniad ymholiad am ganlyniadau
- Ymholiadau ynglŷn â phapurau cwestiynau a chynlluniau marcio
- Cwynion neu ymholiadau ynglŷn â chymwysterau a manylebau
- Cwynion neu gwestiynau am anodiadau gan gynnwys anghytuno ag anodiadau
- Cwestiynau neu gwynion am ddeunyddiau adnoddau a DPP CBAC
- Cwestiynau neu gwynion am berfformiad ar draws unedau, manylebau a blynyddoedd

2. Gwybodaeth allweddol

Pwy sy'n gallu cyflwyno apêl?

- Pennaeth y ganolfan ar ran ymgeisydd neu grŵp o ymgeiswyr. Dylai pennaeth y ganolfan hefyd gyflwyno apeliadau ar ran ymgeiswyr preifat wedi'u cofrestru gan y ganolfan.

Ni all ymgeisydd neu riant gyflwyno apêl yn uniongyrchol.

Sut ydw i'n gallu cyflwyno apêl?

- Llenwch ffurflen JCQ/App1 y CGC o fewn **30 wythnos galendr** i'r ganolfan yn derbyn y canlyniad neu benderfyniad gwreiddiol a'i dychwelyd i: Yr Adran

Gydymffurfio, CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX. Gall y ffurflen gael ei hanfon at appeals@wjec.co.uk cyn belled â'i bod yn cynnwys llofnod electronig a bod fersiwn gwreiddiol wedi'i llofnodi yn cael ei chadw yn y ganolfan. Nid yw'r raddfa amser yn ystyried yr amser y gall canolfannau fod ar gau ar gyfer gwyliau

- Sicrhewch fod y ffurflen yn pennu'n glir ac yn gryno'r sail dros apelio ac yn darparu gwybodaeth benodol i gefnogi'r apêl.

Beth fydd CBAC yn ymchwilio iddo os ydw i'n cyflwyno apêl?

Cam cyntaf apêl yw'r Ymchwiliad Rhagarweiniol.

Yn yr Ymchwiliad Rhagarweiniol, bydd uwch swyddog nad yw wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol yn ystyried:

- P'un a yw'r apêl wedi'i derbyn o fewn y terfyn amser o **30 diwrnod calendr**
- P'un a yw'r apêl wedi'i chyflwyno gan bennaeth y ganolfan neu unigolyn sy'n gymwys i wneud apêl am achos o gamymddwyn.
- P'un a yw'r apêl yn cynnwys gwybodaeth benodol i ganiatáu i'r apêl gael ei derbyn.

Os na fodlonir y tair amod uchod, ni fydd yr apêl yn cael ei derbyn. Os bydd yn cael ei derbyn, bydd yr Uwch Swyddog yn cynnal ymchwiliad yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd gan y ganolfan sy'n gorfod bod yn seiliedig ar un neu'n fwy o'r seiliau canlynol am apêl:

- P'un a yw CBAC wedi defnyddio gweithdrefnau a oedd yn gyson ag amodau a gofynion y Rheoleiddwyr
- P'un a yw CBAC wedi cymhwyso eu gweithdrefnau eu hunain, a rhai CGC, yn gywir ac yn deg wrth lunio dyfarniadau
- Ar gyfer apeliadau ymholiadau am ganlyniadau cymwysterau UG, Uwch a Phroject Estynedig, cymhwyso'r cynllun marcio

Sut a phryd byddaf yn derbyn canlyniad apêl yr Ymchwiliad Rhagarweiniol.

Bydd llythyr yn cael ei anfon at bennaeth y ganolfan mewn achos o apêl o gamymddwyn, yr apelydd cymwys. Bydd yr Apêl yn cael ei gwrthod (peidio ei chaniatáu) neu ei chynnal (caniatáu). Yn unol â therfynau amser CGC, rydym yn anelu i gwblhau'r Ymchwiliad Rhagarweiniol o fewn **5 wythnos galendr**.

Beth allaf ei wneud os nad yw i'n fodlon â chanlyniad apêl yr Ymchwiliad Rhagarweiniol?

Gwrandawriad Apêl yw ail ran y broses apelio. Gellid cyflwyno cais am Wrandawriad Apêl trwy ddefnyddio'r ffurflen JCQ App1. Mae'n rhaid i'r cais gynnwys gwybodaeth benodol yn manylu ar y seiliau am ail gam apêl.

Pwy sy'n ymwneud â Gwrandawriad Apêl?

- Bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal gan Bwyllgor Apeliadau CBAC. Bydd y pwyllgor yn cynnwys isafswm o dri pherson yn cynnwys o leiaf un aelod annibynnol nad oes wedi'i gyflogi gan CBAC yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Beth yw'r raddfa amser ar gyfer cynnal Gwrandawriad Apêl?

- Yn unol â therfynau amser CGC, mae CBAC yn anelu i gynnal Gwrandawriad Apêl o fewn **10 wythnos galendr** o'r derbyniad o gais am Wrandawriad Apêl

A oes angen i'r ganolfan fynychu Gwrandawriad yr Apêl?

- Oes. Bydd pennaeth y ganolfan neu ei gynrychiolydd yn cael ei wahodd i gyflwyno achos y ganolfan. mae disgwyl i'r apelydd fynychu Gwrandawriad Apêl o gamymddwyn staff y ganolfan

Pa wybodaeth y bydd angen i mi ei pharatoi ar gyfer y pwyllgor apeliadau?

- Datganiad ysgrifenedig yn rhoi natur a sail yr apêl yn fanwl. Mae'n rhaid darparu enwau a theitlau swydd tystion a fydd yn rhoi tystiolaeth hefyd (dim mwy na 2 fel arfer). Anfonir y wybodaeth, ynghyd ag achos CBAC, at aelodau'r pwyllgor 10 diwrnod cyn y gwrandawriad

A fyddaf yn derbyn gwybodaeth am achos CBAC cyn Gwrandawriad yr Apêl?

- Byddwch. Bydd y ddwy ochr yn derbyn yr holl wybodaeth sydd ar gael i'r pwyllgor 7 diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod

Beth yw'r graddfeydd amser ynglŷn â derbyn gwybodaeth gan CBAC am Ymchwiliad Rhagarweiniol a Gwrandawriad yr Apêl?

- Bydd CBAC yn cofnodi'r cais am apêl a'r gydnabyddiaeth o dderbyniad o fewn 3 diwrnod gwaith
- Bydd CBAC yn anfon llythyr, yn crynhoi canlyniad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol, fel arfer o fewn **5 wythnos galendr** o'i dderbyn. Os nad yw'r ymchwiliad yn gallu cael ei gwblhau o fewn y raddfa amser hon, byddwn yn rhoi gwybod i'r ganolfan
- Bydd yr apelydd a CBAC yn cael gwybod am benderfyniad y pwyllgor apeliadau o fewn **5 diwrnod gwaith** o'r gwrandawriad. Bydd trawsgrifiad o'r gwrandawriad yn cael ei ddarparu i'r apelydd ac i gynrychiolydd CBAC o fewn **28 diwrnod calendr**. Mae'r trawsgrifiad yn gyfrinachol i'r sawl sy'n ymwneud â'r apêl.

Beth yw'r ffi am apêl?

- £100 am Ymchwiliad Rhagarweiniol (cam 1)
- £175 am Wrandawriad Apêl (cam 2)

Ad-delir/hepgorir y tâl os cadarnheir yr apêl.

3 Ymholiadau am Ganlyniadau

Os nad yw pennaeth y ganolfan yn fodlon â chanlyniadau arholiadau **yn dilyn canlyniad y broses ymholiadau am ganlyniadau**, ac wir yn credu nad yw CBAC wedi dilyn gweithdrefnau priodol, gellid cyflwyno apêl yn unol â phroses Apeliadau CGC a'r wybodaeth

yn y canllaw hwn. Ni dderbynnir apêl ar gyfer ymgeiswyr nad oedd wedi'u cynnwys yn y broses ymholiadau am ganlyniadau. Ni ellir cynnwys ymgeiswyr ychwanegol ar y cyfnod apelio, hyd yn oed os yw'r apêl yn gysylltiedig â nifer o ymgeiswyr yn yr un garfan.

Ar gyfer cymwysterau UG, Uwch a Phroject Estynedig, gellid cyflwyno apêl ar seiliau estynedig nad yw CBAC wedi cymhwyso'r cynllun marcio yn iawn. Mae hyn yn golygu na allai arholwr/safonwr sydd wedi'i hyfforddi a'i gymedroli, sydd â gwybodaeth o'r pwnc ac sydd wedi ymarfer ei b/feirniadaeth mewn modd rhesymol wedi dyfarnu'r marc.

Nid yw gofynion rheoleiddiol yn caniatáu cyrff dyfarnu i gyfnewid un marc rhesymol yn farc rhesymol arall. Felly, ni fydd apêl yn cael ei derbyn ar seiliau y gellid bod wedi derbyn marc rhesymol uwch.

Bydd llythyr canlyniad yr ymholiadau am ganlyniadau yn cynnwys y rheswm dros y canlyniad h.y. nid oes newid wedi bod i'r marc gan bod yr adolygiad o'r marcio/safoni wedi dod i ganlyniad bod y gwaith wedi'i farcio'n llawn yn unol â'r cynllun marcio neu fod newid i'r marc wedi bod oherwydd gwall gweinyddol, fod y gwaith heb gael ei farcio'n llawn yn unol â'r cynllun marcio neu bod ymarfer afresymol o feirniadaeth academaidd wedi bod.

Pa wybodaeth ddylid ei darparu i ategu'r apêl?

Mae'n rhaid i bennaeth y ganolfan nodi'r rhesymau dros apelio yn glir ac yn gryno. Mae tair sail i apêl:

i) Nid yw CBAC wedi defnyddio gweithdrefnau a oedd yn gyson â gofynion rheoleiddiol.

Mae'r gofynion rheoleiddiol wedi eu cynnwys yn Amodau Cydnabyddiaeth Cyffredinol [Ofqual](#) a [CCEA](#) ac Amodau Cydnabyddiaeth Safonol [Cymwysterau Cymru](#) ynghyd ag Amodau Lefel Cymhwyster ac Amodau Lefel Pwnc. Mae gwybodaeth hefyd ar gael yng Ngweithdrefnau Cyfnewid Data [Ofqual](#) a [Cymwysterau Cymru](#).

Os yw apêl yn cael ei gwneud ar seiliau nad yw amodau rheoleiddiol wedi eu cymhwyso'n gyson, rhaid cyfeirio at yr amod(au) penodol. Rhaid i bennaeth y ganolfan ddarparu tystiolaeth pam yr ystyrir nad yw CBAC wedi bodloni'r amod(au) penodol.

ii) Nid yw CBAC wedi cymhwyso ei weithdrefnau, na rhai CGC, yn iawn ac yn deg wrth lunio dyfarniadau.

Mae CBAC wedi dogfennu gweithdrefnau allweddol yn ei [Egwyddoion ar gyfer asesu a dyfarnu cymwysterau](#). Mae hyn yn ymdrin â rolau a chyfrifoldebau, paratoi papurau cwestiynau, tasgau a chynlluniau marcio, cymedroli marcio (asesiadau allanol a safoni) a dyfarnu.

Mae CBAC hefyd yn dilyn bob un o [weithdrefnau CGC](#) yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau, Apeliadau, Camymddwyn, Ystyriaethau Arbennig a Threfniadau Mynediad.

Os yw apêl yn cael ei gwneud ar seiliau nad yw CBAC wedi cymhwyso ei weithdrefnau ei hun, neu rhai CGC, yn iawn ac yn deg wrth lunio dyfarniadau neu wrth gynnal gwiriad clerigol, adolygiad o farcio neu safoni, rhaid i'r apêl ddarparu tystiolaeth gefnogol benodol o'r weithdrefn sydd heb ei chymhwyso'n iawn.

iii) Ar gyfer cymwysterau UG, Uwch a Phroject Estynedig, nid yw CBAC wedi cymhwyso'r cynllun marcio'n gywir.

Nid yw gofynion rheoleiddiol yn caniatáu cyrff dyfarnu i gyfnewid un marc rhesymol yn farc rhesymol arall. Felly, ni dderbynnir apêl ar seiliau y gellid bod wedi derbyn marc rhesymol uwch.

Rhaid i apêl gynnwys gwybodaeth benodol gan ddefnyddio gwaith yr ymgeisydd a'r cynllun marcio i ddangos lle nad yw'r cynllun marcio wedi'i gymhwyso'n iawn. Ni dderbynnir apeliadau yn seiliedig ar honiadau cyffredinol. Er enghraifft, nad yw'r canlyniad yn unol â gradd ddarogan ymgeisydd neu fod canlyniadau carfan yn is na blynyddoedd blaenorol neu ragfynegiadau, nad yw canlyniadau ymgeisydd/carfan mewn un uned/gydran gystal â'u canlyniadau mewn uned/cydran arall neu gymwysterau eraill.

Unwaith y'i derbynnir, bydd CBAC naill ai'n derbyn neu'n peidio â derbyn cais. Os nad yw cais yn cael ei dderbyn bydd rheswm yn cael ei roi. Ni dderbynnir cais os:

- Nad yw wedi'i gyflwyno gan bennaeth y ganolfan
- Nad yw'n cael ei dderbyn o fewn **30 diwrnod calendr** o ganlyniad ymholiad am ganlyniadau
- Nad yw'r broses YAG wedi'i chwblhau
- Nid oes gwybodaeth benodol wedi'i darparu i gefnogi un o'r tair sail i apêl.
- Nid yw seiliau'r apêl yn ddilys e.e. gellid bod wedi derbyn marc rhesymol uwch

Os derbynnir yr apêl, bydd Ymchwiliad Rhagarweiniol yn cael ei gynnal.

Bydd yr Ymchwiliad Rhagarweiniol yn gwirio p'un a yw CBAC wedi cymhwyso'r gweithdrefnau a nodwyd gan y ganolfan yng nghyflwyniad ei apêl ai peidio. Ar gyfer cymwysterau UG, Uwch a Phroject Estynedig, bydd ail adolygiad o farcio yn cael ei gynnal gan adolygwr gwahanol i'r arholwr gwreiddiol neu'r adolygwr ymholiadau am ganlyniadau.

Yn seiliedig ar yr ymchwiliad, bydd yr apêl yn cael ei gwrthod neu ei chynnal. Os yw'n cael ei chynnal, bydd unrhyw waith angenrheidiol pellach ar sgrïpt neu ganlyniadau'r ymgeisydd yn cael ei wneud.

Bydd pennaeth y ganolfan fel arfer yn cael gwybod am y penderfyniad o fewn **5 wythnos galendr** i CBAC yn derbyn yr apêl.

Os yw pennaeth y ganolfan yn parhau i fod yn anfodlon â chanlyniad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol, dylid defnyddio ffurflen JCQ/App1 i gyflwyno cais am Wrandawriad Apêl. Rhaid cyflwyno'r apêl o fewn **2 wythnos galendr** o dderbyn llythyr o ganlyniad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol.

Wrth gynnal Gwrandawriad o'r Apêl, bydd CBAC yn dilyn y gweithdrefnau a ddogfennir yn **'Canllaw ar brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu'** y CGC a **ddaeth i rym ar 17 Awst 2017**.

Yn dilyn Gwrandawriad yr Apêl, ni dderbynnir apêl bellach gan CBAC. Os yw'r apelydd yn parhau i fod yn anfodlon, dylid cyflwyno apêl i'r rheoleiddiwr perthnasol.

Mae copi o weithdrefn r ôl Canlyniadau'r CGC ar gael [yma](#)

4. Apeliadau Camymddwyn

Mae'n rhaid i CBAC dderbyn apeliadau yn erbyn penderfyniadau camymddwyn o fewn **2 wythnos galendr** i dderbyn y canlyniad drwy ddefnyddio ffurflen **JCQ/App1**. Mewn achos o gamymddwyn ymgeisydd, mae'n rhaid i bennaeth y ganolfan gyflwyno'r apêl. Mewn achos o gamymddwyn staff, mae'n rhaid i bennaeth y ganolfan neu'r unigolyn dan sylw gyflwyno'r apêl. Gallai drydydd parti sydd wedi'i wahardd rhag sefyll arholiadau neu asesiadau gyda CBAC apelio yn erbyn y penderfyniad.

Rhaid i apeliadau fod yn seiliedig ar resymau dilys, er enghraifft:

- Ni ddeliwyd â'r digwyddiad yn unol â'r gweithdrefnau a gyhoeddwyd yng nghyhoeddiad y CGC – Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau.
- Roedd y penderfyniad yn afresymol ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd
- Mae mwy o dystiolaeth wedi dod i'r amlwg a all newid sail y penderfyniad
- Cred resymol bod y dystiolaeth wedi cael ei chamddehongli
- Cred resymol nad yw'r canlyniad yn unol â'r canllawiau neu'r cyseiliau neu fod y sancsiwn wedi'i osod yn anghymesur â difrifoldeb yr achos o gamymddwyn

Nid yw'r canlynol yn creu sail ar gyfer apêl:

- Nid oedd yr unigolyn yn bwriadu twyllo
- Mae gan yr unigolyn gofnod di-fai/geirda cymeriad da
- Gall yr unigolyn golli lle mewn prifysgol neu goleg
- Mae'r unigolyn yn edifarhau am ei weithredoedd.

Gellid gwrthod y cais am apêl os nad oes tystiolaeth newydd a bod sail cyflwyno'r apêl yn wan neu'n anghyfiawn.

Ar gyfer apeliadau camymddwyn ymgeisydd, os oes tystiolaeth resymol, bydd o leiaf dau swyddog CBAC sydd heb fod ynghlwm â'r achos gwreiddiol yn ystyried y dystiolaeth ac yn gwneud penderfyniad. Mae penderfyniad y panel yn derfynol ac nid oes unrhyw lwybrau apelio pellach. Anfonir llythyr at bennaeth y ganolfan gyda'r penderfyniad.

Ar gyfer apeliadau camymddwyn gan ganolfannau neu staff canolfannau, os oes tystiolaeth resymol, gall Uwch Swyddog yn CBAC (neu bwyllgor o swyddogion) sydd heb fod ynghlwm â'r achos gwreiddiol:

- Gyfeirio'r mater at Swyddog nad yw wedi ymgymryd â'r achos yn flaenorol am ystyriaeth ffres
- Cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Apeliadau
- Gwrthod y sail dros apelio.

Os yn ofynnol, bydd y Pwyllgor Apeliadau yn ymgynnull am wrandawriad i ystyried yr achos. Bydd o leiaf 3 pherson ar y pwyllgor, yn cynnwys un aelod annibynnol sydd heb weithio dros CBAC yn y 5 mlynedd diwethaf. Ni fyddant wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol a ni fydd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau. Bydd CBAC yn cysylltu â'r apelydd/ganolfan i benderfynu ar ddyddiad priodol ar gyfer y gwrandawriad.

Os yw'r apelydd yn penderfynu peidio â mynychu, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y dystiolaeth ysgrifenedig. Bydd ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Apeliadau yn rhoi copi o'r holl bapurau, dogfennau ac adroddiadau a fydd yn cael eu hystyried gan y pwyllgor, i'r apelydd. Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor yr hawl i benderfynu a yw unrhyw dystiolaeth bellach yn dderbyniadwy i'w chyflwyno yn y gwrandawriad ac a oes modd galw tystion.

Bydd gweithdrefnau'r gwrandawriad yn dilyn y rheiny a nodir yn nogfen y CGC – '*Canllaw ar brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu*'. Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r apelwyr am y broses unwaith eto ar ddechrau'r gwrandawriad.

Mae copi o weithdrefnau Camymddwyn CGC ar gael [yma](#).

Mae penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau'n derfynol ac nid oes unrhyw lwybrau apelio pellach.

5. Trefniadau mynediad ac amodau arbennig

Bydd trefniadau mynediad a phenderfyniadau ystyriaeth arbennig yn seiliedig ar gytundeb rhyng-gyrff dyfarnu fel y dogfennir yn nogfen y [CGC](#) '*Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol*' a '*Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig*'.

Os, ar ôl edrych ar y dogfennau, yw pennaeth y ganolfan yn anghytuno â'r penderfyniad ac os yw'n bendant nad yw CBAC wedi dilyn gweithdrefnau priodol, dylid cyflwyno cais ysgrifenedig i CBAC yn nodi'r rhesymau dros apelio gan ddefnyddio Ffurflen JCQ/App1 y CGC.

Mae'n rhaid i'r cais am apêl gael ei gyflwyno o fewn **2 wythnos galendr** o dderbyn y llythyr penderfyniad gwreiddiol.

Mae cam cyntaf yr apêl, yr Ymchwiliad Rhagarweiniol, yn cynnwys ymchwiliad newydd o'r achos gan uwch swyddog CBAC (neu bwyllgor o swyddogion) sydd heb ymwneud â'r achos yn flaenorol. Bydd yr adolygiad yn ystyried cyflwyniad ysgrifenedig gan yr apelydd, adolygiad o arweiniad a gweithdrefnau y CGC a ddilynwyd wrth ddod i benderfyniad. Mae'r terfynau amser ar gyfer delio â'r apêl yn cael eu cynnwys yn adran 2 y canllaw hwn, er yr ymdrinnir â phob achos cyn gynted â phosibl. Bydd canlyniad yr apêl yn cael ei anfon at bennaeth y ganolfan unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

Os yw pennaeth y ganolfan yn parhau i fod yn anfodlon â chanlyniad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol, dylid cyflwyno cais am Wrandawriad Apêl gan ddefnyddio ffurflen JCQ/App1. Rhaid cyflwyno hyn o fewn **2 wythnos galendr** o dderbyn y llythyr cadarnhau Ymchwiliad Rhagarweiniol.

Wrth gynnal Gwrandawriad o'r Apêl, bydd CBAC yn dilyn y gweithdrefnau a ddogfennir yn **'Canllaw ar brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu'** y CGC a **ddaeth i rym ar 17 Awst 2017**.

Mae penderfyniad Pwyllgor Apeliadau CBAC yn derfynol. Gall y rheoleiddiwr perthnasol, yn ôl ei ddisgresiwn, wrando ar yr apêl unwaith y bydd holl gamau apêl CBAC wedi'u cwblhau.

6 Adolygiad o benderfyniadau gweinyddol eraill

Dylai pennaeth canolfan sy'n bryderus am benderfyniadau gweinyddol eraill mewn perthynas â'r canlynol:

- Cyraeddiadau hwyr iawn
- Sgriptiau coll
- Defnydd o aegrotat

gyflwyno cais ar ran y ganolfan i ailystyried y penderfyniad hwnnw gan ddefnyddio ffurflen JCQ/App1 y CGC i ddatgan y sail ar gyfer y cais i CBAC. Bydd y penderfyniad yn cael ei adolygu gan Uwch Swyddog CBAC (neu bwyllgor o swyddogion) a bydd ymateb yn cael ei anfon at bennaeth y ganolfan. Bydd CBAC yn cydnabod derbyn y cais o fewn 3 ddiwrnod gwaith ac fel arfer yn ymateb yn llawn o fewn **5 wythnos galendr**.

7. Gwybodaeth ddefnyddiol

Manylion Cyswllt CBAC

appeals@wjec.co.uk

Y Tîm Cydymffurfio: Ffôn: 029 20 265474

[Dogfennau'r CGC](#)